

Cofnodion cyfarfod

2/9/2021

Presennol: Y Maer Rhys Evans, Y Dirprwy Faer Sharon Evans, Dilys Evans, Eifion Roberts, Heledd Roberts, Lis Puw (*Clerc*).

1. **Croesawyd pawb gan y Maer, O Rhys Evans**, a fynegodd mor braf oedd cael cyfarfod wyneb yn wyneb, ac ar yr un pryd defnyddio Zoom i'r rhai oedd yn methu bod yn bresennol yn yr Henblas.

Er y bu llawr o brysurdeb yn y dref dros yr haf, ni fu llawer o alw ar amser y Maer. Bu'n bleser i gynrychioli'r Cyngor yng nghyfarfod ar lan Llyn Celyn ym mis Gorffennaf, cyfarfod a alwyd i amlygu i'r Llywodraeth y broblem o ail gartrefi yn y Gymru wledig, a'r prinder tai i bobl leol.

Diolchodd i berchnogion busnesau am baratoi ar gyfer diogelu iechyd, ac roedd yn siom deall fod llawer ohonynt wedi derbyn sylwadau annifyr gan rai ymwelwyr.

Bu llawer o sbwriel ar flaendraeth y llyn ond talodd deyrnged i Wardeiniaid y Parc Cenedlaethol a'r staff a weithiodd mor galed trwy'r haf.

Cyfeiriodd at y rhaglen "Codi Pac" yn ddiweddar a roddodd ddarlun ardderchog o'r dref a'i phobl.

2. **Derbyniwyd ymddiheuriadau** Elin Hedd, Eluned Jones, Tony Parry, Alun Price, John Caradog Williams, Carol Rowlands.
3. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Gorffennaf 1af 2020.
5. **Cyngor Gwynedd:** Nid oedd adroddiad wedi dod i law.
6. **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Derbyniwyd adroddiad Tony Parry trwy e-bost yn rhoi gwybod am amserlen fras cryfhau arglawdd Llyn Tegid.
7. **Is-bwyllgorau:** Mae'r Is-bwyllgor Nadolig wedi derbyn prisiau ac fe fydd yn cyfarfod yn fuan i wneud y trefniadau.
8. **Un Llais Cymru:** Derbyniwyd trwy e-bost:
 - i. Cofnodion Pwyllgor Meirionnydd (Gorffennaf) a manylion cyfarfod 8/9/21.
 - ii. Rheolau cynnal cyfarfodydd o'r Cyngor, gan gynnwys darpariaeth electroneg.
 - iii. Arweiniad i'r Cynghorwyr ar y Cod Ymddygiad.
 - iv. Rhaglen hyfforddiant mis Medi.

- v. Rheolau drafft ar gyfer cynnal etholiadau.
- vi. Drafft Rheoliadau taliadau i Gynghorwyr.
- vii. Gohebiaeth "London Bridge" yn ymwneud â marwolaeth y Frenhines.
- viii. Gwybodaeth am jiwbilŷr Frenhines mis Mehefin 2022.
- ix. Gwybodaeth am sefydlu oergell gymunedol.
- x. Gwybodaeth am Gronfa Perchnogaeth Gymunedol a anfonwyd i sylw'r Cyngorydd Dilwyn Morgan gan y gallai fod yn berthnasol i'r hen sinema.

9. Materion Cynllunio:

- i. Cymeradwywyd cais **NP5/53/LB67Y** "Caniatâd Adeilad Rhestredig i ddiwygio gosodiad y grisiau, lleoliad y boeler a ffliw, adeiladwaith y to a'r canopi dros y brif fynedfa 1 Tai'r Aran, Heol Plasey, Y Bala. LL23 7SW".
- ii. Nid oedd gan y Cyngor sylwadau ar yr ymgynghoriad ar gais Cynllunio Rheilffordd Llyn Tegid; mynegwyd balchder fod y Gymraeg yn cael sylw.

Trafodwyd cais i'r Cyngor osod mater Rheilffordd Llyn Tegid ar Agenda'r cyfarfod nesaf fel bo'r cyhoedd yn cael cyfle i fynychu a chlywed am y datblygiadau. Yn y drafodaeth dywedwyd ei fod yn dda fod y Cwmni yn dymuno siarad gyda thrigolion, ond dywedwyd nad yw'n briodol i'r Cyngor fod yn offeryn i hyrwyddo cais cynllunio gan fusnes preifat. Byddai hefyd yn anymarferol ac yn tarfu ar fusnes arferol y Cyngor; byddai angen trefnu man cyfarfod mwy o faint er mwyn dilyn rheolau Covid 19 a byddai angen trefniadau Zoom er mwyn cydymffurfio gyda rheolau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynnal cyfarfodydd cynghorau. Awgrymwyd bod y Cwmni yn cysylltu gyda Chyngorwyr Gwynedd os dymunant, gan fod y datblygiad yn un i Benllyn.

10. Materion Cyllid:

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a nodwyd derbyn ail hanner y taliad praesept.
- ii. Cymeradwywyd talu biliau o dan gytundebau (cyflog Clerc a glanhau llochesi bws).
- iii. Cytunwyd i dalu'r gost uwch o gynnal y wefan gan fod mwy a mwy o ddogfennau yn gorfod cael eu gosod yn fisol ar y wefan.
- iv. Nid oedd ceisiadau am gefnogaeth ariannol, ond cytunodd y Cyngorwyr i wneud ymholiadau ar sut y gellir bod o gymorth i bobl hŷn.

11. Gohebiaeth:

i. **Parc Cenedlaethol Eryri:**

- i. Ystyriwyd y cyfle i ymgeisio am grant gan Gronfa Gymunedol Eryri, ond nid oedd y cyfyngiadau i'r amodau yn gweddu gydag eiddo a phwerau'r Cyngor Tref. Cytunwyd i gefnogi mewn egwyddor unrhyw geisiadau ym Mhenllyn a all fod o fudd i drigolion Y Bala.
- ii. Arolwg laith – cytunwyd i adael i unigolion ymateb.
- iii. Pecyn plannu coed – cytunwyd i anfon gwybodaeth at Bennaeth Ysgol Godre'r Berwyn ac at swyddogion yr Ardd Gymunedol.

ii. **Cyngor Gwynedd:**

- i. Cyflwr toiledau: anfonwyd am ddiffygion sawl tro yn ystod yr haf.
- ii. Arwyddion i ymwelwyr: anfonwyd gwybodaeth i Gyngor Gwynedd a nodwyd fod arwydd mawr tu allan i'r Goat wedi ei ddifrodi wrth i rywun barcio.
- iii. Railings wrth y grisiau at y Grîn: mae'r rhain bellach wedi eu trwsio.
- iv. Ystyriwyd cais Lindsey Ellis Edwards am gyfarfod. Cytunwyd nad oedd digon o amser i drafod y mater fel eitem ar agenda sydd eisoes yn llawn. Cytunwyd i gynnig cyfarfod dros Zoom gyda chynrychiolwyr o'r Cyngor Tref - Rhys Evans, Elin Hedd, Heledd Roberts ac Alun Price.
- v. Ymgynghoriad trwyddedu busnesau rhywiol eu natur: cytunwyd i ymateb nad oedd y math hwn o sefydliad yn gydnaws a thref Y Bala, nac yn wir a Gwynedd.
- vi. Hyrwyddo Cynllun Gwynedd - cytunwyd i'r cais i holi pobl ar y Stryd Fawr.
- vii. Parcio campervans – ni ddaeth ymateb gan Gyngor Gwynedd i'r cwynion a'r lluniau a anfonwyd.
- viii. Ystyriwyd cwynion gan rai Clercod am ddiffyg ymateb i faterion gan swyddogion Cyngor Gwynedd a diolchwyd i'r Clerc am ymateb ar ran y Cyngor.

iii. **Llywodraeth Cymru:** Nodwyd dosbarthu Ymgynghoriad ar drethi lleol.

iv. **Gohebiaeth parthed mabwysiadu mainc a gosod plac coffa ar fainc:** Cytunwyd fod lleoliad meinciau yn y dref yn fater dyrys, gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a Pharc Cenedlaethol Eryri yn berchen ar feinciau, yn ogystal a'r Cyngor Tref. Yn y gorffennol mae teulu neu gyfeillion wedi prynu mainc er cof ar ôl cael sicrwydd o allu ei leoli. Mae'r sefyllfa'n fwy cymhleth ar yn o bryd oherwydd y gwaith sy'n cael ei wneud gan Gyfoeth Naturiol Cymru i gryfhau'r arglawdd, a'r tebygolrwydd y bydd Rheilffordd Llyn Tegid yn gosod trac rhwng Pont Mwnwgl y Llyn a'r dref. Awgrymwyd bod yr ymgeisydd yn ystyried plannu coeden a gosod plac arni er cof, ac i'r perwyl hynny yn cysylltu gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a fydd yn gyfrifol am osod llefydd eistedd newydd ac am blannu coed o'r newydd ar ol i'r prosiect ddod i ben.

v. Nodwyd yr Ohebiaeth parthed rhoi gwaed.

- vi. **Cyfoeth Naturiol Cymru: Rhannwyd yr ohebiaeth parthed** diogelwch Cronfa Ddŵr Celyn a gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda John C Williams, Tony Parry ac Eluned Jones i ofyn iddynt gynrychioli'r Cyngor yn y cyfarfod yn y Pwerdy am 2.00pm dydd Llun 13/9/21.
 - vii. **NMWTRA:** Mae mater Croesfan i gerddwyr yn Heol Pensarn yn derbyn sylw a bydd canlyniad yr ymchwiliad yn cael ei anfon at Gyngor Tref Y Bala tua diwedd y flwyddyn.
 - viii. **Cyngor Cymuned Llandderfel:** Diolchwyd i Gyngor Llandderfel am yr ymateb i'n gohebiaeth parthed rheoli cyflymder wrth deithio o'r dref i gyfeiriad Llanfor.
12. **Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a soniwyd am arwyddo Lês y Ganolfan Deuluol.
13. **Asedau'r Cyngor:** Diolchwyd i Carol Rowlands am adrodd yn gyson ar gyflwr yr asedau. Mae mat y lle chwarae ar y Grin yn codi a chytunwyd i anfon at Gyngor Gwynedd.

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 1/10/21, Canolfan Henblas ac ar Zoom am 7.00pm.

Amser gorffen: 8.40pm